



CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Cyfarfod
Camfanteisio Rhywiol ar Blant
Amlasiantaethol
(M.A.C.S.E.)**

Cylch Gorchwyl

Cymeradwywyd Hydref 2017

Cefndir

Yn unol â safonau cenedlaethol mae'r pedair ardal sirol wedi mabwysiadu strategaethau i fynd i'r afael â phroblem Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB).

Yn Heddlu Dyfed-Powys mae Cydlynnydd CRhB wedi cael ei benodi i adolygu a rheoli'r gwaith o ledaenu risgiau a ganfuwyd mewn dogfennau 'Fframwaith Asesu Risg Camfanteisio Rhywiol' (SERAF). Mae hyn yn categoreiddio plant i '*Risg Sylweddol*', '*Risg Ganolig*', '*Risg Fechan*' a '*Dim mewn perygl*'. Caiff adroddiadau cudd-wybodaeth yn ymwneud â CRhB eu hadolygu, eu creu a'u lledaenu gan y Cydlynnydd, er mwyn sicrhau bod y swyddogion ar y rheng flaen yn ymwybodol o bryderon. Ar hyn o bryd mae'r Cydlynnydd yn cynnal asesiadau risg mewn perthynas â chyflawnwyr hysbys neu rai a amheuir er mwyn canfod lefel y risg a sefydlu strategaethau amharu priodol.

Comisiynwyd y Cydlynnydd CRhB gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen CRhB CYSUR i ymchwilio i'r modd y mae ardaloedd eraill yn cynnal Cyfarfodydd Camfanteisio Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol. Gallai'r grŵp hwn wedyn ystyried y dewis gorau i ranbarth CYSUR.

Ddydd Llun, y 13^{eg} o Fehefin trafodwyd yr ymchwil a'r cynigion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen CRhB.

Cytunwyd y byddai'r cynnig a eglurir yn y ddogfen hon yn cael ei gyflwyno i Grwpiau Gweithredol Lleol ym mhob ardal am eu barn.

Byddai barn derfynol ar gyfer pob ardal wrth fabwysiadu'r cynnig hwn yn cael ei chyflwyno i Fwrdd Gweithredol CYSUR.

Fe wnaeth Bwrdd Gweithredol CYSUR gadarnhau a chymeradwyo'r ddogfen hon ym mis Hydref 2016.

Beth yw Cyfarfod Camfanteisio Rhywiol ar Blant Amlasiantaethol (MACSE)?

Bwriedir i gyfarfodydd MACSE ddarparu fframwaith i'w gwneud yn haws rhannu gwybodaeth yn rheolaidd a chynllunio sut i weithredu i ymdrin â dioddefwyr a chyflawnwyr Camfanteisio Rhywiol ar Blant (CRhB). Bydd y cyfarfodydd yn darparu fforwm i fonitro achosion o CRhB sy'n achosi pryder '*Sylweddol*' a '*Chanolig*' y mae'r Heddlu a/neu Wasanaethau Plant ac asiantaethau partneriaethol hefyd wedi tynnu sylw atynt.

Ni fydd MACSE yn cymryd lle nac yn disodli polisiâu neu weithdrefnau cyfredol mewn perthynas â diogelu, ac ni fydd yn mynd i'r afael â chamfanteisio ar blant ar ei ben ei hun. Dylid dilyn MACSE mewn cysylltiad â gweithdrefnau diogelu cyfredol.

Ni ddylid caniatáu oedi nac achosi oedi wrth ddelio â phryderon CRhB tra'n disgwyl am y cyfarfod MASE nesaf. Camau prydlon a chadarnhaol i amddiffyn plant rhag CRhB ddylai'r flaenoriaeth fod i'r holl asiantaethau a bydd y cyfarfod MASE yn gweithredu fel proses sicrhau ansawdd i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd a'u cyd-drefnu.

Amcanion cyfarfod MACSE

Bwriedir i MACSE hwyluso trafodaethau sydd wedi eu canolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc hynny y canfuwyd o'r blaen eu bod mewn perygl 'Sylweddol' neu 'Ganolig' o CRhB. Amcan y cyfarfodydd fydd:

- Cyd-drefnu'r holl asiantaethau partneriaethol er mwyn medru defnyddio'r arferion gwaith gorau er budd y rheiny y mae CRhB wedi effeithio arnynt.
- Hyrwyddo cofnodi a rhannu gwybodaeth gyfredol yn gywir am achosion unigol ymhlith asiantaethau sy'n bartneriaid.
- Annog trafodaeth ynghylch y defnydd o ddeddfwriaeth briodol i amddiffyn y dioddefwr ac amharu ar droseddwr/wyr.
- Sicrhau bod unrhyw gam gweithredu y cytunir arno ac a gymerir neu strategaeth a ddefnyddir yn cael ei chofnodi, ei chyd-drefnu a'i hadolygu'n briodol.
- Nodi troseddwr, cysylltiadau, lleoliadau, patrymau troseddu arbennig er mwyn eu cymharu â dioddefwr a adwaenir ac achosion/ymchwiliadau sy'n mynd ymlaen.

Mae'r cyfrifoldeb am gymryd y cam gweithredu y cytunwyd arno yn gorffwys ar yr asiantaeth a enwebwyd. Nid yw'n cael ei drosglwyddo i grŵp MACSE. Bydd cyfarfodydd MACSE yn hwyluso gwerthuso, monitro ac adolygu rhannu gwybodaeth yn effeithiol, fydd yn ei gwneud yn bosibl cymryd camau priodol i ymateb i anghenion unigol plant a phobl ifanc yr ystyrir eu bod mewn perygl o CRhB, sy'n dal i beri pryderon i weithwyr proffesiynol.

Rhaid peidio â defnyddio cyfarfodydd MACSE ar gyfer cyfeirio achosion am y tro cyntaf a rhaid i asiantaethau ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan. Mae hyn i sicrhau bod diogelu yn cael ei asesu a'i gyflawni ar unwaith. Nid cyfarfodydd MACSE yw'r fforwm ar gyfer trafodaeth lawn ar reoli achos. Dylid cynnal y trafodaethau hyn mewn cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol neu Adolygu neu gyfarfodydd Goruchwyllo.

Dylai'r achosion sydd i gael eu trafod gael eu cylchredeg ymlaen llaw i'r rheiny fydd yn bresennol yn y cyfarfodydd MACSE a dylai pawb sy'n bresennol fod yn barod i drafod achosion o safbwynt eu hasiantaeth. Disgwylir i gyfarfodydd MACSE ddod ag eglurder i bawb sy'n bresennol ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan asiantaethau er mwyn ei gwneud yn bosibl rhoi strategaethau a chynlluniau gweithredu ar waith yn gyflym.

Llywodraethu Cyfarfod MACSE

Caiff partneriaethau sefydledig MACSE yng Nghymru a Lloegr eu llywodraethu gan yr Heddlu neu Ofal Cymdeithasol neu gyfuniad o'r ddau. Awgrymir bod llywodraethu MACSE yn ardal Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol CYSUR yn aros gyda Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol a'i fod yn cael ei gadeirio gan reolwr o'r adran honno. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol o ran cyfarfodydd strategaeth sy'n cael eu cadeirio, eu cyd-drefnu a'u gweinyddu gan y Gwasanaethau Plant yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan.

Y rhesymeg dros hyn yw y bydd y plentyn, drwy natur ei atgyfeirio i'r cyfarfod, yn '*achos agored*' ar gyfer gofal cymdeithasol ond nid o angenrheidrwydd yn destun ymchwiliad parhaus gan yr heddlu.

Dylai'r cyfarfod MACSE roi gwybodaeth rheoli perfformiad i CYSUR ynghylch swm yr achosion, y patrymau sy'n dod i'r amlwg a pherfformiad asiantaethau unigol. Bydd ar y Cadeirydd angen cymorth gan y person a benodwyd yn Gydlynnydd MACSE i reoli anghenion gweinyddol y cyfarfodydd.

Swyddogaeth Cydlynnydd MACSE

Bydd Cydlynnydd MACSE yn rheoli strwythur ac anghenion gweinyddol cyfarfodydd, fydd yn cynnwys:

- Derbyn a lledaenu holl atgyfeiriadau ac enwebiadau MACSE.
- Paratoi agenda'r cyfarfodydd misol (i'w dosbarthu bedwar diwrnod cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal).
- Llunio amserlen ar gyfer trafod achosion yn ystod cyfarfodydd.
- Cadw cofnodion a chofnodi camau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd.
- Cyflwyno'r cofnodion a'r camau gweithredu i'w cymeradwyo gan y Cadeirydd.
- Cadw cofnodlyfr o gamau gweithredu ar gyfer cyfeirio/adolygu mewn cyfarfodydd panel dilynol.
- Diweddarw cofnod ar daenlen o'r holl achosion y mae'n amser iddynt gael eu hadolygu.

Swyddogaeth y Cadeirydd

Swyddogaeth y Cadeirydd yw rhoi fframwaith strwythurol i'r cyfarfod, blaenoriaethu achosion a sicrhau bod cynllun rheoli risg amlasiantaethol, cadarn yn cael ei greu. Dylai'r Cadeirydd sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl asiantaethau'n cael eu cynrychioli ar y lefel reolaethol briodol. Os nad ydynt, dylid rhoi adroddiad i CYSUR.
- Bod cyfle yn cael ei roi i bob aelod gymryd rhan a chyfrannu i'r cyfarfod.
- Bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau yn unol â'r canllawiau cyfredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir ar gronfeydd data asiantaethau.
- Bod camau gweithredu a godir yn cael eu coladu a'u trafod yn gyflym.
- Bod y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y lefel briodol ac yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt.
- Cytuno gyda chynrychiolwyr asiantaethau sy'n bartneriaid ynghylch amllder cyfarfodydd MACSE yn ôl y galw lleol.

Aelodaeth MACSE

Bydd yr aelodaeth statudol yn cynnwys;

- Gofal Cymdeithasol Plant o'r awdurdod lle mae'r plentyn yn byw
- Y Gwasanaeth Prawf, Tîm Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid
- Yr Heddlu
- Iechyd
- Gwasanaethau Dysgu

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan argymhellion ynghylch aelodau craidd mewn cyfarfodydd strategaeth.

Asiantaethau eraill i'w hystyried ar sail yr unigolion a drafodwyd;

- Rheolaeth Integredig ar Droseddwyd
- Tai/Hafan Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf
- Darparwyr gofal Iechyd Meddwl
- Timau cyffuriau / alcohol.
- Cymorth i Ferched/Cymdeithas Merched Duon yn Camu Allan (BAWSO)
- Cartrefi Gofal
- Eiriolwyr a Benodwyd
- Cymorth i Ddiodefwyr
- Asiantaethau/gwasanaethau a ddygir i gefnogi'r dioddefwr (e.e. eiriolwyr)

Meini prawf a phroses atgyfeirio MACSE

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o feini prawf achosion a gâi eu trafod yn MACSE:

Achosion lle mae sgôr SERAF wedi awgrymu lefel sylweddol neu ganolog o risg.

Atgyfeiriadau Cyflawnwyr – disgwylir y câi hwn ei gynnal yn bennaf gan yr heddlu, lle mae yna bryderon ynghylch troseddwyd unigol neu Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol (OCGs) ac yr edrychir am wybodaeth bellach i adnabod dioddefwyr posibl er mwyn cynllunio sut i weithredu.

Sylwer:- Mae '*Offeryn Asesu Blaenoriaeth Person a Ddrwgdybir*' wrthi'n cael ei ystyried gyda golwg ar ddarparu asesiad o lefel y bygythiad a gyflwynir gan droseddwyd unigol.

Dylai'r achosion sy'n cael eu cadw a'u trafod fod yn hysbys i'r heddlu ac i ofal cymdeithasol cyn i gyfarfodydd MACSE gael eu cynnal.

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol a enwebwyd neu'r prif weithiwr proffesiynol gyfeirio enw i fforwm MACSE. Cesglir enwebiadau gan Gydlynnydd MACSE. Bydd dogfennau cyfeirio yn cynnwys gwybodaeth gefndir, unrhyw gamau a gymerwyd o'r blaen a risgiau a nodwyd y mae'r plentyn yn agored iddynt.

Agenda MACSE Arfaethedig

Gall y Cadeirydd ystyried y fformat canlynol:

- 1. Cyflwyniad**
*Cynnwys cyflwyniadau a datganiad cyfrinachedd
Atgoffa i ganolbwyntio ar y dioddefwr, yn seiliedig ar ffeithiau, nid barn.*
- 2. Camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**
*Cadeirydd/Cydlynnydd i holi ynghylch unrhyw broblemau neilltuol a gafwyd
wrth gwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol.*
- 3. Cyflwyno achos unigol**
*Y Cadeirydd i gyflwyno manylion y personau sy'n ymwneud â'r achos sydd i
gael ei drafod.*
- 4. Crynodeb o'r achos**
*Gwahodd yr asiantaeth a gyfeiriodd yr achos i roi manylion yr achos i gael ei
drafod.*
- 5. Barn y dioddefwr**
Gwahodd Gofal Cymdeithasol/asiantaeth gefnogi i ddatgelu barn y dioddefwr
- 6. Gwybodaeth yr Heddlu**
*Gwahoddir cynrychiolydd y PVPU i roi rhagor o wybodaeth ffeithiol ynghylch y
dioddefwr neu'r cyflawnwr, gan gynnwys diweddariad ar unrhyw ymchwiliad
neu weithrediad sy'n parhau a chrynodeb o ddiwyddiadau blaenorol.*
- 7. Gwybodaeth asiantaeth arall**
*Gwahoddir cynrychiolwyr yn unigol i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol a
CHYFREDOL fydd yn ychwanegu at ganfod risg.*
- 8. Crynodeb o'r risg a ganfuwyd**
*Y Cadeirydd i grynhoi'r risgiau a nodwyd drwy rannu gwybodaeth a cheisio
cael cytundeb gan gynrychiolwyr. Awgrymir hyn drwy gwblhau SERAF
newydd, yn seiliedig ar wybodaeth ddiweddar yn y cyfarfod.*
- 9. Nodi camau gweithredu i reoli'r risg**
*Bydd y cadeirydd yn gwahodd cynrychiolwyr i **gynnig** camau gweithredu i
reoli'r risgiau a ganfuwyd.
(Mae fframiau amser cytunedig yn hanfodol)*
- 10. Cytuno**
*Bydd y Cadeirydd yn gwahodd unrhyw sylwadau eraill gan y cynrychiolwyr.
Cytunir ar gynlluniau rheoli risg a chânt eu llofnodi gan bob cynrychiolydd.*
- 11.** *Unrhyw batrymau neu leoliadau neu ffynonellau risg sy'n dod i'r amlwg, neu y
gellir eu hadnabod, a chamau gweithredu cytunedig gan asiantaethau i fynd
i'r afael â'r rhain.*

Câi atgyfeiriadau cyflawnwyr eu trafod ar ddiwedd cyfarfod y dioddefwr.

Câi'r rhestr hon ei pharatoi a'i lledaenu gan yr Heddlu. Awgrymir y gallai'r Heddlu arwain y trafodaethau hyn.

Cau Achos

Caiff achosion dioddefwyr unigol eu cau pan fydd yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid yn gytûn bod y risg/iau a ganfuwyd wedi lleihau neu eu dileu a bod prosesau rheoli arferol yn eu lle.

Ni fydd y Cyflawnwyr a drafodwyd yn destun adolygiad.

Protocol Rhannu Gwybodaeth a Awgrymir

Rhennir gwybodaeth yng nghyfarfod MACSE dan Brotool Rhannu Gwybodaeth cytunedig (dylid darllen datganiad o gyfrinachedd yn uchel a'i lofnodi ym mhob cyfarfod) ac yn unol ag unrhyw bolisiau asiantaeth perthnasol. Efallai y bydd datblygiad yn y dyfodol yn gofyn am WASPI

Bydd holl aelodau MACSE yn sicrhau bod data personol wedi ei farcio'n glir a'i gadw'n ddiogel gan bersonél awdurdodedig yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Bydd mynediad at ddeunydd o'r fath wedi ei gyfyngu i staff awdurdodedig.

Dim ond gwybodaeth gywir sy'n uniongyrchol berthnasol i ddiogelwch y plentyn neu'r Cyflawnwr ddylid ei rhannu.